# Proffil Swydd:
# Uwch Swyddog Gwybodaeth a Dadansoddi

**Trosolwg o'r Sefydliad:**

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ei nod yw cefnogi datblygiad proffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol diwydiant cig coch Cymru, i fedru ymateb yn gystadleuol i dueddiadau'r farchnad sy'n newid yn barhaus.

**Trosolwg o'r Swydd:**

Yn bennaf, prif amcanion y swydd fydd;

- Fel y'i dirprwyir gan y *Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes*, bydd deiliad y swydd yn ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant i rannu data a mewnwelediadau ar draws y diwydiant ehangach, gan ddarparu gwybodaeth allweddol i gryfhau rôl HCC fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth o fewn y gadwyn gyflenwi cig coch.
- Dehongli mewnwelediadau beirniadol o'r farchnad a'r diwydiant a'u rhannu yn ôl blaenoriaethau strategol er mwyn gwella cyflawniad, cynaliadwyedd a phroffidioldeb ar draws y gadwyn gyflenwi.

**Prif Atebolrwydd, Cyfrifoldebau a Gweithgareddau:**

- Cefnogi'r *Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes* drwy gasglu a dadansoddi data ar y gadwyn gyflenwi o wahanol ffynonellau data.
- Monitro a dehongli metrigau data i ddangos perfformiad y diwydiant yn erbyn targedau cynaliadwyedd creiddiol.
- Darparu cymorth i adrannau HCC (sef Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol, Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi, a Marchnata a Chysylltiadau Strategol) drwy ddarparu mewnwelediadau a thueddiadau marchnad manwl gywir a defnyddiol.
- Gweithio ar y cyd â'r *Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes* i ddefnyddio metrigau data allweddol a mewnwelediadau i hysbysu'r diwydiant cig coch am y tirweddau gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n newid yn barhaus.
- Ymgysylltu ag arwerthwyr, proseswyr, manwerthwyr ac adrannau amaethyddol prifysgolion i atgyfnerthu proffil HCC fel canolfan wybodaeth ac awdurdod ar y diwydiant.
- Paratoi erthyglau, cyfrannu at weithgareddau cyfathrebu â rhanddeiliaid, a chyflwyno gwybodaeth gyda'r nod o hysbysu cynulleidfaoedd ehangach am dueddiadau presennol y farchnad o fewn y gadwyn gyflenwi cig coch.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel y gofynnir o bryd i'w gilydd gan y

*Swyddog Gweithredol Gwybodaeth, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes*, sy'n cyfateb i radd y swydd, gan gynnwys dirprwyo yn eu habsenoldeb.

# Manyleb Bersonol:
# Uwch Swyddog Gwybodaeth a Dadansoddi

| Ffactor | Meini Prawf Hanfodol | Meini Prawf Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn amaethyddiaeth neu ddisgyblaeth wyddonol/ economaidd | |
| **Profiad a Sgiliau** | 2 flynedd o brofiad mewn Dadansoddeg Data neu Ddadansoddeg Fusnes, neu brofiad cymwys<br><br>Y gallu a'r hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg.<br><br>Gwybodaeth am y diwydiant da byw a/neu'r gadwyni gyflenwi.<br><br>Y gallu i ysgrifennu adroddiadau clir, wedi'u strwythuro'n dda.<br><br>Lefel uchel o sylw i fanylion<br><br>Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol.<br><br>Medru gweithio gyda rhifau'n dda ac yn defnyddio systemau cyfrifiadurol yn hyderus.<br><br>Y gallu i gyflwyno'n hyderus<br><br>Brwdfrydedd dros gyflawni ar amser a sylw manwl i fanylion. | Dealltwriaeth o fframweithiau llywodraeth a pholisi.<br><br>Sgiliau a phrofiad rhwydweithio.<br><br>Profiad o ledaenu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau – gan gynnwys cyfryngau, cyfarfodydd, cyflwyniadau ac erthyglau.<br><br>Profiad o ddadansoddi a dehongli data.<br><br>Hyderus wrth ymgysylltu â chynulleidfaoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Trwydded yrru gyfredol ddilys. | |